Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymgysylltu

## CYNLLUN ANHWYLDERAU CYFFREDIN Y GIG

Ionawr 2023



# Cynnwys

**Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| Cyflwyniad a chefndir | 3 |
| Adborth a gafwyd | 4 |
| Casgliad | 11 |
| Argymhellion | 11 |
| Diolchiadau | 12 |
| Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned | 13 |
| Manylion cyswllt | 14 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 15 |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth | 18 |

# Cyflwyniad a chefndir

Fel Cyngor Iechyd Cymuned, â dyletswydd statudol i fonitro gwasanaethau iechyd a chraffu arnynt, roeddem yn awyddus i glywed gan bobl manteisio ar Gynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG.

Mae Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG yn cynnig yr opsiwn i aelodau o'r cyhoedd ymweld â'r fferyllfa leol i gael cyngor gan fferyllydd os oes ganddynt anhwylder cyffredin. Os bydd angen meddyginiaeth arnoch, efallai y gofynnir i chi gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae cofrestru ar gyfer y gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn golygu y gall y fferyllydd roi'r feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch i chi am ddim.

Anhwylderau cyffredin a gaiff eu cynnwys yn y cynllun: Acne, Tarwden y Traed, Poen Cefn, Brech yr Ieir, Doluriau Annwyd, Colic, Llid Pilen y Llygad (Bacterol), Rhwymedd, Dolur Rhydd, Llygaid Sych, Croen Sych, Clwy'r Marchogion, Clefyd y Gwair, Llau pen, Camdreuliad, Casewin, Intertrigo, Wlserau yn y geg, Brech cewyn, Llindag y Geg, Y Darwden, Y Crafu, Dolur gwddf, Torri Dannedd, Edeulyngyr, Llindag Gweiniol, Dafadennau neu Ferwcau.[1]

Mae ein Cynllun Blynyddol yn dangos ein bod yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r boblogaeth leol, er mwyn cael adborth gan bobl sydd wedi cael triniaeth a gofal gan y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Er mwyn cyrraedd pobl yn y gymuned gwnaethom greu arolwg a oedd ar gael i'w gwblhau ar-lein drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Gwnaethom hefyd greu cardiau busnes gyda chod QR. Gellid sganio'r cod QR gyda ffôn clyfar, a byddai'n mynd â chi i'n harolwg ar-lein. Anfonodd y CIC lythyr a swp o gardiau busnes i fferyllfeydd yn ardal Aneurin Bevan yn gofyn a fyddent yn helpu i gefnogi ein harolwg drwy adael cardiau busnes mewn ardal o'u fferyllfa lle gallai pobl gymryd un a mynd ag ef gyda nhw.

Hoffai'r CIC ddiolch i Fferyllfeydd yn Aneurin Bevan a ddosbarthodd ein cardiau busnes i bobl yn y gymuned. Roedd yr arolwg ar agor o fis Hydref i fis Rhagfyr 2022.




[1] https://bipab.gig.cymru/gwasanaethau-gofal-iechyd/fferyllfeydd/

# Adborth a gafwyd

Aeth **25** o bobl ati i lenwi ein harolwg a rhoi eu profiad o ddefnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG.

Wrth adolygu'r data ar gyfer yr arolwg hwn, roedd yn braf darllen bod y rhan fwyaf o'r adborth mewn perthynas â Chynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG yn gadarnhaol. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion ar yr ymatebion a gafwyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a lanwodd ein harolwg yn ymwybodol bod y cynllun ar gael mewn fferyllfeydd. Nododd y bobl hyn hefyd eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r cynllun na manteisio arno.

Dywedodd 22 o bobl wrthym eu bod yn ymwybodol bod Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG ar gael mewn fferyllfa yn eu hardal leol. Nid oedd tri unigolyn yn siŵr a oedd hyn yn wir yn eu fferyllfa.

Gwnaethom ofyn i bobl: *"Os ydych chi wedi defnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG, a oedd siarad â'ch fferyllydd yn brofiad hawdd?"*

Dywedwyd y canlynol wrthym:

**Oedd:** 17 **Nac oedd:** 2

Sylwadau:

*"Mae'n dibynnu pa mor brysur maen nhw. Weithiau bydda i'n gallu siarad â nhw ar unwaith, weithiau ar ôl aros am gyfnod byr, neu weithiau bydd angen i mi ddychwelyd ar ddiwrnod arall."*

*"Bu'n rhaid i mi aros rhywfaint gan fod prinder staff."*

*"Nid ydynt yn cynnig pethau'n rhwydd nac yn hysbysebu'n dda nac yn gwneud hyn yn hawdd mewn amgylchedd prysur."*

*"Roedd yn rhwystredig iawn ac er bod yr anhwylder yn rhan o'r cynllun – llid yr amrannau – nid oedd yn fodlon rhoi'r eli angenrheidiol i ni (roeddem yn barod i dalu) a chawsom ein hanfon yn ôl i geisio cael apwyntiad meddyg anoddach fyth a oedd yn ddiangen gan fy ngadael yn anghyfforddus iawn."*

Mae'n bwysig bod preifatrwydd pobl yn cael ei barchu wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG. Felly, gwnaethom ofyn *"Os ydych chi wedi defnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG, a gawsoch chi'r opsiwn o siarad â'r fferyllydd mewn ardal breifat?"*

Dywedodd wyth unigolyn wrthym na chawsant yr opsiwn o siarad â'r fferyllydd mewn ardal breifat.

Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn arfer gallu defnyddio ystafell breifat yn ei fferyllfa leol, ond na all hyn ddigwydd mwyach am eu bod *"wedi cael gwared ar yr ystafell".* Dywedodd unigolyn arall wrthym pan oedd yn defnyddio'r cynllun, ei fod wedi gorfod gofyn am gael siarad â fferyllydd mewn ardal breifat.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, dywedodd 14 o bobl wrthym eu bod wedi cael yr opsiwn o siarad â'r fferyllydd mewn ardal breifat.

Mewn perthynas â phreifatrwydd pobl, gwnaethom ofyn hefyd *"Os ydych chi wedi defnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG, a gafodd eich preifatrwydd a'ch urddas eu parchu yn ystod eich ymgynghoriad yn eich barn chi?"*

Dywedodd 18 o bobl wrthym eu bod yn teimlo bod eu preifatrwydd a'u hurddas wedi cael eu parchu. Er, nid oedd pum unigolyn yn teimlo'r un ffordd. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw sylwadau pellach.

Roeddem am gael gwybod a oedd y cynllun yn cael ei ddarparu i bobl a'i gwblhau mewn da bryd. Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn, roedd 17 o bobl o'r farn bod hyn wedi digwydd. Dywedodd un unigolyn wrthym fod hyn yn digwydd *"fel arfer"* ac roedd pum unigolyn o'r farn nad oedd hyn yn digwydd.



Yna, gofynnwyd i bobl pa mor debygol roeddent o argymell Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG i eraill. Roedd yn braf darllen bod 23 o bobl o'r farn ei bod naill ai'n *"debygol iawn"* neu'n *"debygol"* y byddent yn argymell y gwasanaethau i eraill. Fodd bynnag, dywedodd dau unigolyn nad oedd yn debygol y byddent yn gwneud hynny.



Roeddem am i bobl nodi pa mor fodlon oeddent â Chynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG sydd ar gael mewn fferyllfeydd:

**Bodlon iawn:** 11

**Bodlon:** 10

**Anfodlon:** 3

**Anfodlon iawn:** 2



Rhoddodd y cwestiwn olaf ar ein harolwg y cyfle i bobl roi rhagor o sylwadau mewn perthynas â'r cynllun. Cawsom yr adborth canlynol:

*"Rwy'n pryderu bod problemau sylfaenol mwy difrifol a allai gael eu colli. Nid yw hyn wedi digwydd i mi, diolch byth, ond cafodd fy mam antasidau ar gyfer diffyg traul, ond mewn gwirionedd, roedd ganddi aniwrysm aortig na chafodd ei ganfod hyd nes roedd yn sefyllfa argyfyngus."*

*"Rwy'n meddwl y gallai fod yn wasanaeth da sydd o fewn gallu'r fferyllydd, ond rwyf wedi'i ddefnyddio ddwywaith a dywedwyd wrthyf y dylwn i weld y meddyg, a oedd yn mynd yn groes i'r bwriad."*

*"Roedd awgrym y fferyllydd yn ddefnyddiol; cymerais ei chyngor."*

*"Ni chynigiwyd man preifat i mi, ond fi oedd yr unig berson yn y fferyllfa. Rwy'n siŵr y byddai wedi cael ei gynnig pe byddai angen."*

*"Rwy'n hapus iawn â'r ymateb a'r canlyniad"*

*“Cefais fy nghyfeirio at y cynllun gan optegydd ac ni fyddwn wedi clywed amdano fel arall. Nid yw wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd.”*

*“Mae fferyllwyr a staff dan ormod o bwysau, ac mae mwy o gymorth ariannol ar gael fel y gall fferyllfeydd gael eu staffio'n ddigonol os disgwylir iddynt gymryd gwaith ychwanegol y mae'n ymddangos bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am ei drosglwyddo iddynt.”*

*“Roedd y fferyllydd yn ddigynnwrf, yn hawdd siarad ag ef a rhoddodd gyngor clir a da. Helpodd hyn i leddfu pwysau mynd i weld meddyg teulu.”*

*“Mae angen i'r gwasanaeth gael ei hysbysebu a bod yn fwy hygyrch. Nid yw'n gyfforddus gofyn am eitemau wrth y cownter gyda chiw y tu ôl iddo. Nid yw'n amlwg beth y gellir ei gynnig a ph'un a oes amser/lle yn y fferyllfa i hyrwyddo a darparu'r gwasanaeth hwn mewn ffordd gyfrinachol. Mae angen teimlo'n ‘normal’ i allu defnyddio'r gwasanaeth. Mae angen sicrhau bod gwybodaeth gliriach ar gael yn haws ym mhob fferyllfa sy'n cymryd rhan, o ran pa gyflyrau a meddyginiaeth sy'n cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun. Mae'n gynllun gwych yn fy marn i ond mae angen ei hyrwyddo'n well a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddo fel na fydd pobl yn ofni gofyn, ond yn ystyried ei fod yn rhan arferol o wasanaeth y GIG. Efallai bod angen mwy o hyfforddiant a chyllid ar fferyllfeydd?”*

*“Fel o'r blaen, wn i ddim a ydynt yn teimlo'n hyderus i roi diagnosis ond dylent fod wedi dweud hynny cyn dechrau a dylai'r feddygfa ddweud er mwyn osgoi gorfod gwneud apwyntiad, y dylent fynd i'r fferyllfa.”*

*"Es i i gael triniaeth am edeulyngyr i'm merch a bu'n rhaid i mi aros am gryn amser i weld fferyllydd. Nid oes gennyf broblem â hyn gan fy mod yn gwybod eu bod yn eithriadol o brysur. Fy mhrif broblem oedd fy mod yn teimlo fy mod yn cael fy nghwestiynu pam roeddwn i'n defnyddio'r cynllun. Rwy'n deall yn iawn fod angen gofyn yr holl gwestiynau meddygol, ond roeddwn i'n teimlo bod yn rhaid i mi gyfiawnhau fy rhesymau dros ddefnyddio'r gwasanaeth. Roeddwn i'n teimlo'n chwithig ac yn anghyfforddus nad wyf wedi'i ddefnyddio ers hynny. Efallai mai dyna pam y gwnaed i mi deimlo fel hynny fel na fyddwn yn ei ddefnyddio eto!! Mae'n rhaid i mi ddweud, yn y dyfodol y byddwn i'n fwy tebygol o drefnu apwyntiad gyda'r meddyg na chael fy nghwestiynu a gwneud i mi deimlo cywilydd eto. Nid oedd yn brofiad da o gwbl."*



*"Gwasanaeth gwych a staff parod eu cymwynas".*

*"Mae Neil a'i dîm yn y fferyllfa yn Thomas Street, Abertridwr, yn hollol wych. Maent bob amser yn gyfeillgar, yn barod i helpu, mae ganddynt ddigon o amser i chi a dydyn nhw byth yn gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus. Mae fy nau fab, yn enwedig un ohonynt, wedi gorfod wynebu sawl mater meddygol ac rwyf mor falch bod gennyf Neil a'i dîm. Mae Neil mor wybodus ac mae wedi ein helpu'n fawr ac rwyf mor ddiolchgar iddo :)"*

*"Roeddwn i'n siomedig o glywed bod meddyginiaeth rwyf wedi bod yn ei phrynu'n rheolaidd ar gael am ddim. Rwy'n teimlo y dylwn fod wedi cael cynnig hyn neu gael gwybod amdano yn llawer cynt. Mae angen i'r gwasanaeth hwn gael ei hysbysebu mwy o lawer a dylai fferyllwyr orfod eich hysbysu yn hytrach na chymryd eich arian yn ddi-ben-draw ac yn ddiangen mae'n debyg."*

*"Roedd y fferyllydd yn barod iawn ei gymwynas, yn llawn gwybodaeth a chymerodd yr amser i wrando."*

*"Gofynnais am wrthfiotigau ar gyfer cyflwr rwy'n dioddef ohono'n rheolaidd. Nododd y fferyllydd na allai ragnodi'r tabledi ac y dylwn gysylltu â'm meddyg teulu."*

*"Bu'n rhaid i mi ofyn o flaen pobl eraill ddwywaith am gael gweld fferyllydd ar gyfer fy llid yr amrannau a gwrthodwyd rhoi ymgynghoriad i mi y ddau dro, a phan gefais fy ngweld roedd o flaen pobl eraill, drwy'r ffenestr lle maen nhw'n rhoi meddyginiaethau i bobl sy'n gaeth i gyffuriau ac nid mewn ystafell breifat. Roedd y fenyw yn oeraidd ac yn anwybodus, a bu'n rhaid i mi ailadrodd fy hun drosodd a throsodd."*

# Casgliadau

I gloi, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r bobl a lanwodd ein harolwg wedi cael profiad cadarnhaol wrth ddefnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG a byddent yn argymell y gwasanaeth i eraill. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at faes y mae angen ei wella, fel:

- Pobl na chawsant gynnig ardal breifat i siarad â fferyllydd wrth ddefnyddio'r cynllun.
- Nodi sylw un unigolyn a ddywedodd fod ardal breifat yn ei fferyllydd wedi cael ei hatal.
- Dylid hyrwyddo'r cynllun yn fwy effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth ei fod yn bodoli i gleifion.

# Argymhellion

**1)** Byddai'r CIC yn falch pe gellid rhannu'r adborth cadarnhaol yn yr adroddiad hwn â'r gwasanaethau fferyllfeydd.

**2)** Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff pobl gynnig sgwrs â fferyllydd mewn ardal breifat wrth ddefnyddio Cynllun Anhwylderau Cyffredin y GIG.

**3)** Er bod y CIC yn cydnabod yr ymgyrch gyhoeddus i hysbysebu'r cynllun hwn, gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ystyried sicrhau bod yr holl hysbysebion/gwybodaeth am y cynllun mewn ardaloedd amlwg a'u bod yn cael eu hyrwyddo'n weithredol gan staff fferyllfeydd a meddygfeydd.

# Diolchiadau



Hoffai'r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn â ni, a gobeithio y bydd yr adborth yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'u galluogi i gymryd camau cyn gynted â phosibl i wella pethau lle bo angen.

# Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.  Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrff rheoleiddio. Mae CICau yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Mae CICau yn cael adborth gan y cyhoedd mewn sawl ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd CICau yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd er mwyn clywed gan bobl wrth iddynt gael gofal a thriniaeth.  Roedd CICau hefyd yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.




Ers pandemig y coronafeirws, mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideogynadleddau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn am wasanaethau'r GIG a'u profiadau o'u defnyddio, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae saith CIC yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn cynrychioli llais “y cleifion a'r cyhoedd” mewn rhan wahanol o Gymru.

# Manylion cyswllt

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Rhaglan
William Brown Close
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB

01633 838516

**Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk**

**www.aneurinbevancic.gig.cymru**

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

# Canlyniadau'r arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

| **Dewis Iaith** | | |
|---|---|---|
| **Saesneg** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 15 | 1 | 9 |

| **Rhywedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menyw/ Merch** | **Dyn/ Bachgen** | **Anneuaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 12 | 5 | 1 | 0 | 0 | 5 |

| **A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | **Nac ydw** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Heb ateb** |
| 0 | 18 | 0 | 7 |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anrhywiol** | **Deurywiol** | **Hoyw** | **Lesbiaidd** | **Heterorywiol/ Syth** | **Panrywiol** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 0 | 0 | 2 | 0 | 15 | 0 | 1 | 0 | 7 |

| **Mis a Blwyddyn geni** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ion 1976-05** | **Chwe 1960-62** | **Maw 1960-94** | **Ebr 1940** | **Mai** | **Meh 1950-** | **Gorff 1950-60** | **Awst 1960-70** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **-70** | | **60** | | |
| 2 | 1 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| **Medi 1980-95** | **Hyd 1950-60** | **Tach 1960-90** | **Rhag** | **1950-55** | **Heb ateb** | | |
| 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 10 | | |

**Ethnigrwydd**

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:**

| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Du neu Ddu Prydeinig:**

| Affricanaidd | Caribïaidd | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 1 |

**Gwyn:**

| Cymreig/ Seisnig/ Albanaidd/ Gwyddelig Gogledd Iwerddon/ Prydeinig | Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 0 | 0 |

**Grŵp Ethnig arall:**

| Arabaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

**Crefydd neu gred**

| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| 0 | 0 | 4 | 0 | 1 |
| Heb ateb | 10 | | | |

| **A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 3 | 13 | 1 | 8 |

| **A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 8 | 11 | 0 | 6 |

| A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb ateb | Byddai'n well gennyf beidio â dweud |
| 0 | 18 | 7 | 0 |

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd y polisi/gweithgaredd yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y

grwpiau canlynol, neu drwy nodi na fydd unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddo l** | **Cadarnh aol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | Mae holl arolygon y CIC ar gael mewn fformat gwahanol ar gais. |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | | x | | Dim ond ar-lein yr oedd yr arolwg ar gael. Fodd bynnag, os byddai unigolyn yn cysylltu â swyddfa'r CIC, byddai copïau wedi'u hargraffu yn cael eu hanfon yn ddi-oed. |

## Asesiad Risg

| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?** |
|---|
| Amherthnasol |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?** |
| Amherthnasol |
| **Y Gymraeg**<br><br>Mae'r ddogfen hon/polisi hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br><br>i) 37, 38<br>ii) 69, 70, 71<br><br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gwnaethom ofyn am gyngor/adolygu tystiolaeth/ystyried y canlynol:<br><br>Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br><br>Effaith gadarnhaol –<br><br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg<br><br>Effaith Negyddol – Dim |

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.